## Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus: Craffu ar Gyfrifon: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-23

*Argymhelliad 3. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn pwyso ar Lywodraeth y DU am amserlen gliriach ar gyfer darparu gwybodaeth bob blwyddyn i lywio'r broses o baratoi'r gyllideb. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi manylion i ni am sut mae'n cysylltu â Llywodraeth y DU i gael mwy o eglurder a sicrwydd ynghylch cyllid.*

**Derbyn**. Er bod amseriad digwyddiadau cyllidol y DU yn fater i Lywodraeth y DU, rydym yn parhau i dynnu sylw Llywodraeth y DU at bwysigrwydd rhoi mwy o sicrwydd ac eglurder i'r Llywodraethau Datganoledig ynghylch amseriad digwyddiadau cyllidol y DU, gan ystyried effaith hyn ar ein gweithdrefnau cyllidebol ninnau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwyso'n gyson ar Lywodraeth y DU am amserlen gliriach a mwy rhagweladwy ar gyfer ei digwyddiadau cyllidol sy'n effeithio ar ein prosesau pennu cyllidebau a chraffu. Rydym wedi codi'r mater hwn drwy'r sianelau priodol, gan gynnwys y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid a chyfarfodydd dwyochrog â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys.

Yn fwyaf diweddar, tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa’r Cabinet sylw at hyn yn ystod cyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ar 14 Mawrth ac mewn llythyr at y Canghellor ar 29 Chwefror.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi codi'r mater â Phrif Ysgrifenyddion olynol y Trysorlys ynghylch yr angen am fwy o eglurder a gwybodaeth yn fwy amserol o ran goblygiadau cyhoeddiadau cyllidol Llywodraeth y DU ar gyfer Cyllideb Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â hyblygrwydd cyllidebol ychwanegol i helpu i ymdrin â'r ansicrwydd hwn. Pan fo Llywodraeth y DU yn gwneud cyhoeddiadau cyllidol sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol, rydym wedi gofyn am drefniant tebyg i'r Warant COVID a gafwyd yn ystod 2020-21, a roddodd rywfaint o sicrwydd inni am isafswm y cyllid ychwanegol y gallem ddisgwyl ei gael.

Ynghyd â'r Gweinidogion Cyllid datganoledig eraill, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa’r Cabinet wedi codi hyn â'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ac mae wedi arwain trafodaethau ar wella proses Amcangyfrifon Atodol y DU er mwyn helpu'r Llywodraethau Datganoledig i gynllunio eu cyllidebau yn effeithiol.

Byddwn yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am amserlen gliriach o ran ei digwyddiadau cyllidol ac arwyddion cynnar o unrhyw gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod yr effaith y mae'r penderfyniadau hyn yn ei chael ar y gyllideb ddatganoledig a'r broses graffu yn cael ei hystyried.